Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE

Mai 2012



Mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrwytho yn:
www.wales.gov.uk/topics/international/publications/eustrategy2012/?lang=cy

Ebost:
correspondence.european@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012
WG15257
ISBN 978 0 7504 7545 7

# Rhagair

Rwyf wastad wedi bod yn glir ynghylch y manteision sy'n dod i Gymru o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae arian o Ewrop yn helpu'r economi yn rhai o'n hardaloedd llai ffyniannus i ddatblygu yn ogystal â helpu i gynnal economi ein hardaloedd gwledig. Hefyd, rydym wedi cael ein canmol am ein traethau glân, ansawdd ein haer ac iechyd ein da byw – mae'r cyfan wedi'i sbarduno yn y lle cyntaf gan yr UE.

Un peth rwy wedi'i ddysgu yn y blynyddoedd diwethaf yw na ddylech fyth cymryd unrhyw beth yn ganiataol. Mae'r ansicrwydd ariannol ac economaidd a geir yn rhai o wledydd yr UE yn effeithio arnon ni yma yng Nghymru. Nid oes cuddio rhag effeithiau cyfandirol na byd-eang er bod y 'cilcyn hwn o'r ddaear' gydag un o'r corneli tawelaf a mwyaf sefydlog yn Ewrop.

Mae sefyllfa Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd yn rhywbeth rydyn ni'n gorfod ei meithrin beunydd. Rwyf wedi ymrwymo, fel y Prif Weinidog, i arwain Llywodraeth sy'n weithgar ar y lefel Ewropeaidd, ac rwy'n disgwyl i'm Gweinidogion ddilyn yr un trywydd. Rwyf am i Gymru elwa ar yr holl fanteision y gall Ewrop eu cynnig iddi. Mae gennym lawer i'w ennill ac yn fy marn i, mae gennym ninnau rywbeth i'w gynnig i'r profiad Ewropeaidd ehangach.

Lansiais strategaeth wyddoniaeth yn ddiweddar ar ran Llywodraeth Cymru, ein hun gyntaf erioed. Rwy'n credu y gall Cymru ddenu mwy o'r arian sydd wedi'i neilltuo gan Ewrop ar gyfer ymchwil ac arloesi. Mae rhai o'n prifysgolion a'n hathrofeydd wedi dangos y ffordd yn hyn o beth, ond rwy'n siwr y gallwn hawlio cyfran mwy ohono yn y blynyddoedd i ddod. Gall y gwaith hwn fod yn fan cychwyn ar gyfer cydweithredu ar lefel ryngwladol, gan luosi'r manteision posibl i Gymru.

Rhaid inni ymroi'n galetach a denu'r sector preifat i gyfrannu hefyd. Rwy'n teithio bedwar ban yn hyrwyddo Cymru fel lle da i fusnesau ac fel partner masnachol. Mae'r profiad hwn wedi dangos yn glir imi bod y byd bellach yn lle cystadleuol iawn a bod yr her sy'n ein hwynebu i gynnal a datblygu'n ffyniant yn un anferth.



Awn ni ddim â'r maen i'r wal ar ein pennau'n hunain. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn agor y drws i economi fwya'r byd o safbwynt GDP, ac i fyd lle gallwn weithio gydag eraill i arloesi a datblygu'n diwydiannau. A finnau'n delio â buddsoddwyr o Tsieina, India, America a thu hwnt, rwy'n gwybod yn bendant ei bod yn bwysig iawn i fuddsoddwyr bod Cymru'n aelod sefydlog a thymor hir o'r UE. Dyna gnewyllyn fy nadl bob tro o blaid Cymru yn Ewrop.

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Diben a manteision cysylltiadau Cymru â'r UE | 7 |
| Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chysylltiadau â'r UE | 8 |
| Hybu a diogelu buddiannau Cymru yn yr UE | 8 |
| • Y Farchnad Sengl: Masnach a Buddsoddi | 10 |
| • Strategaeth 'Europe 2020': Swyddi a Thwf | 10 |
| • Cyllideb yr UE 2014-2020 | 11 |
| • Y Cronfeydd Strwythurol: Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 12 |
| • Amaethyddiaeth a Physgodfeydd | 13 |
| • Datblygu Cynaliadwy | 14 |
| • Cyfleuster Cysylltu Ewrop: Rhwydweithiau Trafnidiaeth, Ynni a Thelathrebu | 15-16 |
| • Horizon 2020: Cefnogaeth ar gyfer Ymchwil, Datblygu, Arloesi a Gwyddoniaeth | 17 |
| • Addysg, Sgiliau, Cyflogaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol | 18 |
| • Ynni | 19 |
| • Newid Hinsawdd | 20 |
| • Yr Amgylchedd | 21 |
| • Iechyd | 22 |
| • Cyflawni'n hymrwymiadau yn yr UE | 23 |
| Codi proffil Cymru yn yr UE a hybu ymgysylltu â'r UE yng Nghymru | 24 |
| • Codi proffil Cymru drwy ragori a thrwy rannu dysgu | 24 |
| • Hybu Cymru ym Mrwsel | 24 |
| • Hybu Cymru drwy dwristiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth | 25 |
| • Cysylltiadau addysgol a diwylliannol | 27 |
| • Hybu ymgysylltu â'r UE yng Nghymru | 27 |
| Dylanwadu ar waith llunio polisïau'r UE | 28-32 |
| Y Camau Nesaf: Rhaglen Waith ac Adroddiad Blynyddol | 32 |

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Ein hamcan yw hybu a diogelu buddiannau Cymru a sicrhau'r canlyniadau gorau bosib i'n dinasyddion. Mae'r strategaeth yn esbonio pam a sut y bwriadwn wneud hyn.

Ers datganoli, bu cynnydd pendant yn ein gallu ni i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau'r UE sy'n bwysig i Gymru. Gan gydnabod y cynnydd hwn, mae'n bryd adnewyddu ac ailfywiogi'n dull o weithio. Mae'r UE yn newid trwy'r amser ac mae angen i ninnau newid gydag ef.

Yn sgil arafu'r economi yn 2008, mae diweithdra wedi codi a thwf economaidd wedi arafu ledled Ewrop.  Mae'r ewro ei hun wedi bod o dan bwysau aruthrol a theimlir effaith hynny y tu fewn i ardal yr ewro a'r tu allan iddi. Yr un pryd, mae economïau newydd y tu allan i Ewrop – Tsieina, India, Brasil ac eraill – yn parhau i dyfu'n gyflym ac yn her gystadleuol gynyddol. Ni all gwledydd Ewrop gymryd eu safle economaidd byd eang traddodiadol yn ganiataol mwyach. Rhaid inni weithio gyda'n gilydd, bod yn hyblyg a chanolbwyntio'n hegnïoedd i adfywio'r economi.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai buddsoddi mewn ymchwil, datblygu ac arloesi yw'r allwedd i'n llwyddiant economaidd yn y dyfodol. Mae addysg a sgiliau'n hanfodol inni allu cystadlu a'n capasiti i gynnal twf economaidd cynaliadwy. Mae angen amrywiaeth o ffynonellau ynni arnom i redeg ein heconomi ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Rydym am fyw mewn Cymru lle ceir cyfiawnder cymdeithasol, mewn gwlad sy'n gydlynus ac yn agored i dalentau a syniadau'r byd i gyd.

Mae'r UE yn bartner i'n helpu i wynebu'r heriau hyn ac mae economi Cymru'n derbyn ymhell dros hanner biliwn o bunnau'r flwyddyn o goffrau'r UE. Mae amcanion yr UE a ddisgrifir yn ei strategaeth Europe 2020, yn ategu ein *Rhaglen Lywodraethu* ni ein hunain. Er enghraifft, byddai buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru hefyd yn cyfrannu at amcanion yr UE i greu twf drwy wella cysylltiadau, adeiladu Marchnad Sengl a gwireddu potensial y gweithlu drwy gynnig gwell mynediad at gyflogaeth. Byddai hefyd, drwy hwyluso twf mewn ardaloedd dan anfantais, yn gwella cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol. Yn yr un modd, byddai codi lefel sgiliau gweithwyr sgiliau isel yng Nghymru yn cyfrannu tuag at nodau Europe 2020 i gynyddu cynhwysiant cymdeithasol a chyfraddau cyflogaeth yn ogystal â symbylu twf economaidd.



# Diben a manteision cysylltiadau Cymru â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cael cryn effaith ar fywyd pobl yng Nghymru, a bydd yn chwarae rhan bwysig yn ffyniant ein cenedl. Mae'n gwneud penderfyniadau ac yn pasio cyfreithiau sy'n effeithio ar bolisïau Cymru mewn meysydd fel busnes a masnach, amaethyddiaeth a datblygu gwledig, datblygu rhanbarthol, ynni, sgiliau, cyflogaeth, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae ein haelodaeth o'r UE, a'n cyfranogiad gweithgar yn y broses o ddatblygu a gweithredu ei bolisïau a'i raglenni, yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r amcanion a osodwyd gennym yn ein *Rhaglen Lywodraethu*.

Egwyddorion cydlyniant a chydgefnogaeth yw sylfaen yr UE a'u hamcan yw creu'r amodau ar gyfer tegwch a ffyniant. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Farchnad Sengl ac mae ein heconomi'n elwa'n fawr ar gyfleoedd i fasnachu'n rhydd â'n partneriaid yn Ewrop. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno ag amcanion 'Europe 2020', strategaeth yr UE ar gyfer twf call, cynhwysol a chynaliadwy. Rydym yn cytuno â'r pwyslais ar ymchwil, datblygu ac arloesi ac yn credu eu bod yn rhan hanfodol o economi'r dyfodol.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bartner buddsoddi pwysig i Gymru. Mae'r Cronfeydd Strwythurol, y Polisi Amaethyddol Cyffredin a rhaglenni eraill, o'u cyfuno ag arian Llywodraeth Cymru a ffynonellau buddsoddi eraill, yn lluosogi eu heffaith ar economi Cymru. Mae'n hanfodol i'n buddiannau bod y ffrydiau ariannu hyn yn parhau yng nghyfnod nesaf cyllideb yr UE (2014-2020) er mwyn medru cynnal y buddsoddi hanfodol hwn.

Fel partner gweithgar, mae Cymru'n chwarae rhan bositif yn yr UE. Rydym wedi dangos arweiniad wrth ddatblygu a gweithredu polisïau arloesol. Er enghraifft, Cymru sy'n arwain y ffordd ymlaen o ran gwneud defnydd mwy effeithiol o'r Cronfeydd Strwythurol drwy alluogi cwmnïau bach a chanolig i gael at gyllid. Mae Cyswllt Ffermio, ein gwasanaeth cymorth ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth, wedi dylanwadu ar gynlluniau mewn rhannau eraill o'r UE. Yn yr un modd, mae ein profiad o hybu'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi denu diddordeb Aelod-wladwriaethau eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio er mwyn gwneud y gorau o fod yn aelod o'r UE i bobl Cymru drwy'r amcanion a nodir isod.

# Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chysylltiadau â'r UE

## Hybu a diogelu buddiannau Cymru yn yr UE

Yn ystod y blynyddoedd 2012-2013, gwneir penderfyniadau pwysig ar gyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020. Byddwn yn sefyll cornel Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn cael y canlyniadau mwyaf ffafriol i'n hamgylchiadau yng Nghymru.

Er mwyn hybu a diogelu buddiannau Cymru, byddwn yn nodi'r polisïau arfaethedig yn yr UE a allai effeithio'n gadarnhaol ar Gymru ac yn ymgysylltu yn y meysydd polisi hynny gan weithio ar yr un pryd i liniaru'r mesurau a allai arwain at ganlyniadau anffafriol i Gymru.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Y Farchnad Sengl: Masnach a Buddsoddi
- Strategaeth Europe 2020: Swyddi a Thwf
- Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020
- Y Cronfeydd Strwythurol: Datblygu Economaidd Rhanbarthol
- Amaethyddiaeth a Physgodfeydd
- Datblygu Cynaliadwy
- Cyfleuster Cysylltu Ewrop: Trafnidiaeth, Ynni a Thelathrebu
- Horizon 2020: Cefnogaeth ar gyfer Ymchwil, Datblygu, Arloesi a Gwyddoniaeth
- Addysg, Sgiliau, Cyflogaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol
- Ynni
- Newid Hinsawdd
- Yr Amgylchedd
- Iechyd
- Cyflawni'n hymrwymiadau yn yr UE

Bydd Llywodraeth Cymru'n nodi cynigion yr UE sy'n berthnasol i Gymru ac yn ymroi i hybu a diogelu ein buddiannau.

Y Prif Weinidog yn nigwyddiad Dydd Gŵyl Ddewi 2012 ym Mrwsel



## Y Farchnad Sengl: Masnach a Buddsoddi

Mae'r Farchnad Sengl Ewropeaidd wedi cael effaith aruthrol ar ffyniant tymor hir yn Ewrop. Yr Undeb Ewropeaidd yw ein partner masnachu mwyaf o hyd, gyda marchnad o ryw 500 miliwn o bobl ynddi, economi fwya'r byd o ran GDP. Yn ogystal â bod yn hynod bwysig i fusnesau Cymru, mae cyswllt â'r Farchnad Sengl yn rhan bwysig iawn o'r hyn y gall Cymru ei gynnig i fuddsoddwyr tramor.

Mae rhagor na 500 o gwmnïau yng Nghymru'n allforio dros £5 biliwn yn flynyddol i Aelod-wladwriaethau eraill yr UE ac mae rhyw 150,000 o swyddi yng Nghymru'n dibynnu ar y fasnach honno. Yn ychwanegol at hyn, mae dros 450 o gwmnïau o Aelod-wladwriaethau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn cyflogi dros 50,000 o bobl.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi cystadleuaeth deg o fewn y Farchnad Sengl a safonau cyffredin i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a gweithwyr fel ei gilydd. Er nad oes croeso i ormod o ddeddfu, mae safonau cyffredin yn ennyn hyder yn y Farchnad Sengl ac yn annog buddsoddi.

Mae ysgogi allforio a denu mewnfuddsoddi'n ganolog i'n strategaeth ar gyfer ennyn twf ac adnewyddu'r economi. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r Farchnad Sengl a bydd yn gweithio gydag eraill i sicrhau amodau teg a chyfartal ac amgylchedd busnes deinamig ledled yr UE.

## Strategaeth 'Europe 2020': Swyddi a Thwf

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod twf economaidd yn hanfodol i sicrhau ffyniant a chyfle ac mae hyn yn gyson â strategaeth tymor canolig yr UE. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datblygu cyfres o fentrau mewn meysydd fel cyflogaeth a sgiliau; addysg; ymchwil, datblygu ac arloesi – y cyfan wedi'i lunio i symbylu economi gystadleuol a chynaliadwy.

Mae'r UE yn monitro ac yn gwerthuso'r modd y cyflawnir amcanion Europe 2020 a bydd pob Aelod-wladwriaeth yn llunio adroddiad blynyddol, a elwir y Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol, sy'n nodi ei chynnydd. Mae elfennau sylweddol o'r agenda heb eu datganoli, er enghraifft sefydlogrwydd macroeconomaidd a diwygio lles. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol mewn meysydd allweddol fel sgiliau, mynediad busnesau at gyllid, yr economi wybodaeth ac mewn mesurau eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, a gyflwynir i'r Comisiwn Ewropeaidd ac a fydd yn nodi ein cynnydd a'r polisïau ar gyfer creu'r amodau ar gyfer twf. Drwy ddilyn y trywydd hwn y byddwn yn parhau i gyfrannu at weledigaeth ehangach ar gyfer ffyniant Ewropeaidd yn y cyfnod hyd at 2020.

# Cyllideb yr UE 2014-2020

Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion ar gyfer ei gyllideb ar gyfer 2014-2020 (a elwir y Fframwaith Ariannol Amlflwydd). Roedd y ddogfen hon yn nodi'r meysydd gwariant bras a'u cymharu ag amcanion y strategaeth 'Europe 2020' i sicrhau twf a swyddi.

Mae gan Gymru fuddiant sylweddol yn y ddau faes gwariant mwyaf, sef y Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sy'n cyfrannu'n sylweddol at les economaidd Cymru. Credwn y dylai'r gyllideb ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin fod yn ddigonol ar gyfer cyflawni amcanion Europe 2020.

Mae gennym fuddiant mewn ffrydiau ariannu cystadleuol eraill fel Horizon 2020, cronfa fwyaf ond dwy yr UE a'r prif offeryn ar gyfer cefnogi ymchwil ac arloesi. Byddwn yn symbylu ac yn cefnogi sefydliadau Cymru i wneud y gorau o'u hymwneud â phrosiectau'r UE ac i gydweithio â sefydliadau tebyg ledled Ewrop. Ein hamcan yw sicrhau bod datblygiadau yn y seilwaith trafnidiaeth, ynni a'r rhwydweithiau telathrebu yn elwa ar gyllid o dan Gyfleuster Cysylltu Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen i'r UE gyllidebu'n ddarbodus, o ystyried yr amgylchiadau economaidd presennol, ond rydym ni'n credu bod maint y gyllideb yn ddigon i ddygymod â'r heriau sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru a ledled Ewrop.  Dylid arfer disgyblaeth lem yng nghyswllt gwariant gweinyddol, a defnyddio offerynnau ariannol amgen a fydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd.

Ar ôl mabwysiadu Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda sefydliadau Cymru i'w helpu i sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddenu arian o'r rhaglenni Ewropeaidd perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru o Gyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020 a byddwn yn cydweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i gyflawni hyn. Hefyd, rydym yn ymrwymedig i sicrhau'r budd mwyaf posibl o raglenni'r UE, gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a chanolbwyntio ar gyflawni ac ar sicrhau canlyniadau i bobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru.

# Y Cronfeydd Strwythurol: Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Bydd Cymru'n elwa ar gymorth gwerth dros £1.9 biliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn ystod cyfnod cyfredol y rhaglen (2007-2013). Mae'r cymorth hwn, ynghyd â'n buddsoddiad ni'n hunain, yn ein helpu i ail-lunio ein seilwaith economaidd i wneud Cymru yn economi werdd, carbon isel. Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn ymwneud hefyd â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Ceir eisoes gysylltiad cryf rhwng strategaeth Europe 2020 a'r *Rhaglen Lywodraethu*. Mae'r strategaethau hyn yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol i wella bywydau. Bydd yn bwysig i fuddsoddiadau yn y dyfodol o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sydd wedi'u hanelu i greu'r amgylchiadau cywir ar gyfer twf economaidd, gael eu cysoni'n briodol â Chronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n galluogi pobl i wella'u sgiliau a'u rhagolygon cyflogaeth.

Gan ddisgwyl am arian y dyfodol, rydym yn gweithio â'n partneriaid i helpu i lunio cyfeiriad polisi'r DU a'i safbwynt negodi cyn cylch nesaf rhaglenni'r UE. Rydym hefyd yn cydweithio â'r Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop i ddatblygu'r rheoliadau newydd sy'n gosod y fframwaith deddfu a rheoli ar gyfer cyfnod nesaf y rhaglenni.

Cefnogwn ddyheadau'r Comisiwn am well integreiddio ar draws ystod o gronfeydd yr UE ac i symleiddio'r broses o ddarparu cyllid, yn enwedig ar gyfer y buddiolwyr terfynol. Rydym yn rhannu'n profiadau, ein harbenigedd a'r gwersi a ddysgwyd wrth reoli rhaglenni'r UE yng Nghymru gyda'r Comisiwn, y Senedd a rhwydweithiau Ewropeaidd. Ar ôl cytuno ar y pecyn deddfwriaethol, byddwn maes o law yn negodi ein Rhaglenni Gweithredol gyda'r Comisiwn ac rydym eisoes wedi dechrau ymgynghori â'n partneriaid ar flaenoriaethau'r dyfodol.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r Cronfeydd Strwythurol a neilltuir i Gymru. Byddwn yn cefnogi nifer llai o brosiectau mwy strategol a'n bwriad yw canolbwyntio ar greu twf a swyddi cynaliadwy.



Y Prif Weinidog Carwyn Jones gyda Chomisiynydd Polisi Rhanbarthol Ewrop Johannes Hahn.



Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, Alun Davies AC, y Comisiynydd Ewropeaidd Johannes Hahn a Paul Freeman, Rheolwr Gyfarwyddwr Bridge Marine Science Group, yn derbyn gwobr RegioStars yr UE, Mehefin 2011. © Undeb Ewropeaidd 1995-2012.

# Amaethyddiaeth a Physgodfeydd

## Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn helpu i gynnal hyfywedd ein cymunedau gwledig. Mae Cymru'n elwa ar ddwy ffrwd gyllid y PAC. Mae'r Taliad Sengl/Taliad Uniongyrchol yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'n busnesau ffermio ac mae'r Gronfa Datblygu Gwledig yn rhoi cefnogaeth fwy cyffredinol i ardaloedd gwledig. Gyda'i gilydd, maent yn denu bron £400 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.

Mae'r rheoliadau sy'n ymdrin â'r PAC yn y dyfodol yn destun trafod ar hyn o bryd. Ein nod yw sicrhau cyfran Cymru o'r arian ac i ddylanwadu ar bolisi er budd economi a chymdeithas Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weinyddu cylch cyfredol cronfeydd y PAC a bydd am ddenu'r nifer mwyaf posibl i fanteisio arnynt. Byddwn yn ceisio atal unrhyw gamau unioni gan y Comisiwn trwy sicrhau bod cynlluniau ariannu yng Nghymru yn cydymffurfio, eu bod yn cael eu hysbysebu'n dda ac y gwneir taliadau'n gywir ac yn brydlon.

Amcan Llywodraeth Cymru yw cael y budd mwyaf posibl o'r PAC. Rydym am weld buddsoddiadau'n cael eu defnyddio i ddatblygu busnesau ffermio a gwledig cynaliadwy a phroffidiol a chymunedau gwledig cryf, ac i wella rheolaeth amgylcheddol yn ein hardaloedd cefn gwlad.

## Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC)

Mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn hollbwysig ar gyfer rheoli stociau o bysgod, y fflyd bysgota a marchnata cynnyrch pysgodfeydd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal adolygiad cyn cyflwyno PPC newydd yn 2013 ac mae Llywodraeth Cymru'n cynrychioli anghenion penodol diwydiant pysgota Cymru. Rydym am weld PPC sydd â'i fys ar byls anghenion y sector pysgotwyr bach er mwyn sicrhau budd i Gymru ar ffurf pysgodfeydd cynaliadwy a swyddi pysgota cynaliadwy.

Yn debyg i ffrydiau ariannu eraill, mae'n ofynnol i CPE, a'i olynydd, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, gyflawni yn erbyn amcanion hirdymor Europe 2020 a'r PPC diwygiedig, a fydd mewn grym hyd 2022.

Byddwn yn ceisio sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r cronfeydd sydd ar gael yng Nghymru. Rydym am weld buddsoddiadau yn y dyfodol yn cael eu defnyddio i ddatblygu cymunedau pysgota, arloesi mewn meysydd megis diogelu'r amgylchedd, casglu data, ymchwil wyddonol, dyframaethu a rheolaeth ar weithrediadau pysgota.




Dash Shellfish, Broadhaven, Sir Benfro

# Datblygu Cynaliadwy

Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, ac mae wedi'i hymwreiddio yn ein *Rhaglen Lywodraethu*. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi pwyslais ar les cymdeithasol ac economaidd ac yn seiliedig ar degwch a chyfiawnder cymdeithasol, gan fyw o fewn terfynau'r amgylchedd. Yn ystod y Cynulliad hwn, caiff deddfwriaeth ei phasio i gryfhau egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws sector cyhoeddus Cymru.

Mae'r UE yn bartner parod yn y weledigaeth hon a gwelir y blaenoriaethau rydym yn eu rhannu yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned.* Mae Llywodraeth Cymru am fod yn gorff eangfrydig a byddwn yn hybu datblygu cynaliadwy trwy gymryd rhan yn Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD).

**Byddwn yn sicrhau bod cysondeb rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddatblygu cynaliadwy ac ymagwedd yr UE. Byddwn yn gweithio ar lefel ryngwladol hefyd i hybu gwerthoedd datblygu cynaliadwy ac yn cydweithredu yn Ewrop a thu hwnt.**



# Cyfleuster Cysylltu Ewrop: Rhwydweithiau Trafnidiaeth, Ynni a Thelathrebu

Fel rhan o'i gynigion ar gyfer ei gyllideb ar gyfer 2014-2020, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig sefydlu Cyfleuster Cysylltu Ewrop fel cronfa gwerth €50 biliwn i ddisodli'r rhaglenni presennol ar gyfer Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd. Cyfres o gysylltiadau seilwaith trawsffiniol strategol yw'r rhwydweithiau hyn sy'n ymestyn ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Maent yn cynnwys cysylltiadau trafnidiaeth traws-UE, cysylltiadau â'r grid ynni a seilwaith telathrebu traws-UE.

## Rhwydweithiau Trafnidiaeth

Mae gan Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd, ei *Roadmap to a Single European Transport Area* a'i gynigion ar gyfer adolygu canllawiau'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (a elwir yn TEN-T), botensial i fod yn bwysig dros y degawd nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r egwyddor rhwydwaith "craidd" traws-UE a gefnogir gan rwydweithiau "cynhwysfawr" cenedlaethol a rhanbarthol. Mae Llywdoraeth Cymru'n cytuno hefyd ag uchelgais ehangach yr UE i annog defnyddwyr trafnidiaeth i newid eu dulliau teithio, er mwyn lleihau eu hôl troed carbon. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r trafodaethau ar y rheoliadau drafft. O dan y rhaglenni hynny, cynigir €37.1 biliwn ar gyfer seilwaith trafnidiaeth. Yn ystod 2012-2013 byddwn yn gweithio i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael sylw llawn yn y pecyn deddfwriaethol terfynol, gan gynnwys dynodi cysylltiadau trafnidiaeth allweddol yng Nghymru a buddsoddiadau posibl yn y seilwaith.

Byddwn hefyd yn archwilio'r cyfleoedd posibl a gynigir gan ffrydiau ariannu eraill, fel Horizon 2020 a'r Cronfeydd Strwythurol, i wella a moderneiddio'n seilwaith trafnidiaeth a hwyluso'r newid i ddulliau mwy ecogyfeillgar o deithio.

## Rhwydweithiau Ynni

Mae Cyfleuster Cysylltu Ewrop yn cynnig neilltuo €9.1 biliwn ar gyfer y seilwaith ynni, diogelu'r cyflenwad ynni a datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy drwy rwydweithiau ynni ar draws yr UE. Mae Rhyng-gysylltydd Cymru-Iwerddon, sef cyswllt 160 milltir o hyd rhwng rhwydweithiau trosglwyddo trydan Cymru ac Iwerddon sy'n cael ei ddatblygu gyda chyllid yr UE, yn enghraifft o'r cysylltiadau trawsffiniol hyn. Byddwn yn ymchwilio i ddatblygu Rhyng-gysylltydd tebyg ag Iwerddon o Sir Benfro.

## Rhwydweithiau Telathrebu

Cynigir €9.2 biliwn i gefnogi'r buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym, a gwasanaethau digidol traws-Ewropeaidd. Nod y gronfa hon yw sbarduno arian o ffynonellau preifat a chyhoeddus eraill er mwyn cyflawni targedau Ewropeaidd ar gyfer cysylltiad band eang ar gyflymder o 30 Mbps o leiaf, gydag o leiaf 50 % o aelwydydd yn cael cyflymder uwch na 100 Mbps erbyn 2020.

Mae gan brosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru gan Lywodraeth Cymru y potensial i sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yng Nghymru yn cael mynediad at y gwasanaethau hyn ymhell o flaen targed 2020 yr UE. Mae'r ymrwymiad hwn yn y *Rhaglen Lywodraethu*, yn ceisio sicrhau bod gan bob eiddo busnes a phreswyl yng Nghymru fynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2015; a bod gan o leiaf 50 % ohonynt fynediad at wasanaethau 100 Mbps. Mae gan Gyfleuster Cysylltu Ewrop botensial i gynnal gweithgarwch yng Nghymru yn ychwanegol at ein prosiect ein hunain i ysgogi buddsoddiad ychwanegol o'r sector preifat.

Mae ein cysylltiadau ag Aelod-wladwriaethau eraill yn hollbwysig er mwyn i ni ymelwa ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Farchnad Sengl, ac er mwyn cyflawni'n huchelgais o greu twf cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymroi i ganlyn potensial Cyfleuster Cysylltu Ewrop i gefnogi buddsoddiadau graddfa fawr yn y seilwaith.



# Horizon 2020: Cefnogaeth ar gyfer Ymchwil, Datblygu, Arloesi a Gwyddoniaeth


Mae rhoi hwb i weithgarwch ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gyson ag amcanion yr UE fel y'u mynegir yn amcanion menter Horizon 2020 yr UE (cynnig am raglen ariannu ymchwil ac arloesi gwerth €80 biliwn ar gyfer 2014-2020).

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Arloesi newydd ar gyfer Cymru. Bydd y strategaeth hon wedi'i dylunio i sicrhau y caiff cyllid yr UE ei dargedu at feysydd lle ceir cydnabyddiaeth o allu Cymru i gystadlu drwy'r byd.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogaeth yr UE ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru, ac effaith botensial hyn ar dwf a ffyniant. Yn *Gwyddoniaeth i Gymru*, sefydlwyd gennym yr egwyddorion sy'n sail i'n hymagwedd, gan gynnwys ymroi i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â'r partneriaid gorau yn Ewrop a thu hwnt a denu capasiti a buddsoddiad arloesi i Gymru. Mae gennym flaenoriaethau neilltuol ym maes gwyddorau bywyd ac iechyd; carbon isel, ynni a'r amgylchedd; a deunyddiau a pheirianneg uwch.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod yn rhaid i Gymru ennill mwy o gyllid ymchwil neu gyllid ymchwil a datblygu cystadleuol allanol. Mae hyn yn cynnwys y cynllun ariannu cyfredol – a elwir yn Rhaglen y Seithfed Fframwaith – a chynllun Horizon 2020 sydd ar ddod. Er na all y Cronfeydd Strwythurol gefnogi ymchwil syml neu sylfaenol, mae modd eu defnyddio i feithrin gallu er mwyn cynyddu cystadleurwydd Cymru o safbwynt diwydiannol ac o ran ymchwil a datblygu, a dylid gwneud hynny.

Rydym yn cymryd rhan yn natblygiad menter Horizon 2020 a byddwn yn gweithio i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei dylunio i gydategu'r Cronfeydd Strwythurol. Ein nod yw symleiddio'r broses ymgeisio er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau bach a chanolig a cheiswyr eraill. Ein nod yw sicrhau cynnydd sylweddol yng nghyfanswm y cyllid ymchwil cystadleuol a ddaw i Gymru o gymharu â'r lefelau presennol, sef tua 2% o gyfanswm y DU.



# Addysg, Sgiliau, Cyflogaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cyswllt agos rhwng cyrhaeddiad mewn addysg a lefelau sgiliau a chyflogadwyedd a pha mor ddeniadol ydym i fusnesau. Rydym yn cydnabod hefyd mwya'n byd yw'r gyfradd cyflogaeth, isa'n y byd yw'r achosion o dlodi. Meysydd polisi Llywodraeth Cymru yw'r rhain i raddau helaeth (er nad yw diwygio lles wedi'i ddatganoli) ond mae gan gymorth yr UE ran i'w chwarae trwy amcanion Europe 2020 a Chronfa Gymdeithasol Ewrop o dan y Cronfeydd Strwythurol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried atal tlodi yn nod allweddol, yn enwedig drwy fuddsoddi i sicrhau y caiff plant y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Ein hamcanion yw lleihau anghydraddoldeb ar y cyfle cyntaf a thorri'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, tangyflawni mewn addysg ac effaith hyn ar gyfleoedd bywyd.

Nod ein hymagwedd tuag addysg a hyfforddiant yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg yn gynnar, a chodi lefelau sgiliau. Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* yn cefnogi'r nodau hyn drwy gyflwyno rhaglenni cyflogaeth newydd i roi hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl ifanc drwy fuddsoddi mwy mewn sgiliau.

Nod Llywodraeth Cymru yw codi lefelau sgiliau er mwyn symbylu cyfradd cyflogaeth uwch, yn enwedig swyddi crefftus sy'n derbyn cyflogau uwch. Y nod, sy'n gyson â'r weledigaeth yn 'Europe 2020', yw symbylu effaith bositif tymor hir ar gynhyrchiant, twf, incwm aelwydydd a thlodi plant.



# Ynni

Fel a nodwyd yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*, uchelgais Llywodraeth Cymru yw creu economi carbon isel fydd yn rhoi dyfodol cyfoethog i Gymru a gwneud yn siŵr bod Cymru'n geffyl blaen yn y newid hwnnw a'i bod yn manteisio'n llawn ar y potensial am swyddi a datblygu economaidd tymor hir ym mhob cam ar hyd y ffordd honno.

Mae ein huchelgais yn gyson â'r *EU Energy Road Map 2050* a'i nod o ddigarboneiddio, rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio ynni'n effeithlon ac ynni adnewyddadwy a chanolbwyntio ar gynllunio'r seilwaith ynni sydd ei angen mewn ffordd strategol. Mae gan Gymru sail academaidd ac arloesi uchel iawn ei chlod, sydd eisoes yn cynnal 29,000 o swyddi yn y sectorau adnewyddadwy a charbon isel. Law yn llaw â'n hadnoddau naturiol arwyddocaol, mae ynni'n cynnig cyfle euraid i Gymru. Trwy fanteisio ar y cyfle hwn a gweithio at wireddu'n huchelgais, rydym yn benderfynol o chwarae rhan flaenllaw wrth gyflawni amcanion ynni'r UE a'i amcanion carbon isel, economaidd a newid hinsawdd ehangach.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio i roi arweiniad ym maes ynni, i gael y buddiannau economaidd a chymunedol gorau ac yn gweithredu nawr i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol tymor hir fel y'i nodir yn *Ynni Cymru*. Wrth wneud, byddwn yn gweithio'n egnïol mewn partneriaeth o fewn yr UE i wireddu'n huchelgeisiau cytun ar gyfer ynni.



# Newid Hinsawdd

Mae cymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac adlewyrchir hyn yn ein *Rhaglen Lywodraethu*. Rydym ni'n credu fod angen arweiniad ar bob lefel er mwyn ysgogi'r gweithredu sydd ei angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i sicrhau cytundeb byd-eang rhwymol a thymor hir. Mae'r UE mewn sefyllfa unigryw i arwain ymdrechion rhyngwladol.

Gan weithio drwy'r DU fel ein Haelod-wladwriaeth, mae Llywodraeth Cymru'n gyson wedi annog yr UE i symud tuag at darged lleihau allyriadau o 30 % ar gyfer 2020. Bydd gostyngiadau mewn allyriadau drwy System Masnachu Allyriadau yr UE (SMA yr UE) yn cyfrannu'n sylweddol at darged Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 40 % mewn allyriadau. Rydym yn credu mai SMA yr UE yw'r ffordd orau o hyd i leihau allyriadau gan ddiwydiannau ynni-ddwys, ar yr amod bod y cynllun yn cael ei weithredu mewn modd sy'n diogelu gallu busnesau Cymru i gystadlu. Yng Nghymru, rhaid inni wneud ein hunain yn geffylau blaen yn y dyfodol carbon isel, gan annog arloesi mewn technolegau carbon isel.

Wrth weithio i wella gallu Cymru i reoli canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, rydym yn cyfrannu i Grŵp Llywio Effaith ac Addasu yr UE, ac yn ddiweddar buom yn helpu i sefydlu porthol gwe 'Tŷ Clirio Addasiadau' yr UE er mwyn hyrwyddo rhannu arfer da mewn dulliau o addasu.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio i gefnogi gwaith ar lefel yr UE i gryfhau ymrwymiadau rhyngwladol i leihau allyriadau, a chyflenwi rhaglenni sy'n gymorth i sicrhau bod gennym reolaeth effeithiol dros ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd dros y degawdau nesaf.










1. Beicio yng Nghaerdydd
2. Gosod deunydd inswleiddio
3. Paneli solar

# Yr Amgylchedd

Mae ein hadnoddau naturiol a harddwch ein cefn gwlad a'n harfordir ymhlith asedau pwysicaf Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru, y DU a'r UE er mwyn sicrhau bod buddiannau amgylcheddol Cymru yn cael eu hystyried wrth greu polisïau a'u bod wedi'u cysylltu ag elfennau gwahanol o gyllid yr UE.

Byddwn yn ceisio dylanwadu ar bolisi amgylcheddol yr UE drwy gymryd rhan yn fuan mewn trafodaethau ar faterion sy'n effeithio ar swyddogaethau datganoledig, er enghraifft yr adolygiad o ddeddfwriaeth dŵr, aer a gwastraff sydd ar ddod. Gwnawn hyn drwy gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar statws negodi'r DU yn Ewrop, a thrwy ryngweithio'n uniongyrchol â sefydliadau'r UE. Byddwn yn ceisio cefnogi ymdrechion lobïo rhwydweithiau, cyrff anllywodraethol, rhanbarthau ac Aelod-wladwriaethau eraill pan fydd lobïo o'r fath yn fodd i gryfhau ein neges.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r UE i sicrhau ein bod yn cyflawni'n hymrwymiadau amgylcheddol yn llawn. Drwy hynny, byddwn yn lliniaru'r risgiau, gan gynnwys y risgiau ariannol a chyfreithiol a ddaw yn sgil cymhwyso cyfraith yr UE yn anghywir neu'n wael. Yn yr un modd, byddwn yn gwylio rhag y risg y gallai polisi'r UE wrthdaro â pholisi neu gyfraith sydd wedi'i sefydlu yng Nghymru; er enghraifft, byddem yn gwrthwynebu unrhyw gynigion a allai danseilio statws Cymru fel cenedl di-GMO.

Mae Cymru'n arwain drwy ddangos esiampl. Mae'r defnydd o adnoddau'n uchel ar agenda'r UE ac mae ein strategaeth *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn dangos cryn uchelgais o ran ailgylchu, compostio gwastraff bwyd a lleihau tirlenwi. Mae ein cynllun i godi tâl am fagiau siopa untro yn enghraifft arloesol bellach o'n hymrwymiad yn y maes hwn.

**Byddwn yn cysylltu â sefydliadau'r UE er mwyn sicrhau bod amgylchedd Cymru yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau, ac er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n hymrwymiadau amgylcheddol.**



# Iechyd

Yn y gorffennol, mae agenda iechyd yr UE wedi canolbwyntio ar dri amcan: gwella sicrwydd iechyd dinasyddion; hybu iechyd gan gynnwys lleihau anghydraddoldebau iechyd; a lledaenu gwybodaeth iechyd. Mae gan yr UE Raglen Iechyd Cyhoeddus a chanddi oddeutu €3.2 biliwn ar gael yn ystod y cyfnod ariannu cyfredol (2007-2013) sy'n caniatáu i amrywiaeth o weithredwyr o bob rhan o'r Undeb ymgeisio am adnoddau i hybu agenda iechyd yn unol ag amcanion cyffredinol Ewrop.

Mae rhan helaeth o agenda'r UE, yn enwedig gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac asesiadau effaith ar iechyd yn ategu'r ymagwedd a fabwysiadwyd yng Nghymru. Bydd mwy o ymglymiad gan Gymru yn y Rhaglen Iechyd Cyhoeddus nesaf yn ein galluogi i godi ein proffil drwy ragori, a thrwy rannu dysgu â rhanbarthau a chyrff eraill ar draws yr Undeb.

Fodd bynnag, nid yw gweithredu'n gysylltiedig ag iechyd wedi'i gyfyngu i'r agenda iechyd cyhoeddus. Yn gynyddol, mae llawer o gynigion yr UE, fel deddfwriaeth y Farchnad Sengl, hawliau gweithwyr a chyd-gydnabod cymwysterau yn effeithio ar y modd y byddwn yn cynllunio ac yn cyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae rhaglenni eraill yr UE, fel Horizon 2020, hefyd yn cynrychioli cyfle sylweddol am weithgarwch yn gysylltiedig â'r sector iechyd, gan gynnwys gwaith mewn gwyddorau bywyd, yng Nghymru.

Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a sefydliadau eraill yr UE er mwyn ceisio sicrhau bod deddfwriaeth iechyd yn adlewyrchu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n troi'n fwyfwy Cymreig yng Nghymru. Ar gyfer rhaglenni ariannu byddwn yn mabwysiadu ymagwedd gydweithredol i hwyluso cynigion gan sefydliadau o Gymru ym maes iechyd.



# Cyflawni'n hymrwymiadau yn yr UE

Amcan Llywodraeth Cymru yw gweithio i hybu a diogelu buddiannau polisi Cymru o dan ddeddfwriaeth yr UE.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu unrhyw ymrwymiadau o'r UE sy'n effeithio ar faterion datganoledig. Yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Adran 80(1)) mae ymrwymiad gan y DU hefyd yn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru lle bo'n gymwys i'n swyddogaethau datganoledig. Rhaid i Lywodraeth Cymru felly sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth bresennol yr UE a sicrhau y caiff deddfwriaeth ei throsi'n gywir yn y dyfodol. Gall methu cymhwyso, neu drosi cyfraith yr UE, neu fethu cadw at y gyfraith honno yn y dull cywir arwain at gamau cyfreithiol (a elwir yn achosion tordyletswydd) gan y Comisiwn Ewropeaidd ac, yn y pen draw, at ddyfarniad neu ddirwy gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Concordat ar Gydgysylltu Materion Polisi'r UE o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn nodi sut i ymdrin â materion Polisi'r UE. Nodir ynddo y bydd y weinyddiaeth ddatganoledig yn ysgwyddo cosbau a chostau ariannol a orfodir ar y DU sy'n deillio o ddiffyg gweithredu neu orfodi gan weinyddiaeth ddatganoledig ar fater sydd o fewn i'w chwmpas cyfrifoldeb.

Llywodraeth Cymru fydd yn rhoi cyfraith yr UE sy'n ymwneud â chyfrifoldebau datganoledig ar waith yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth y DU, fel cynrychiolydd yr Aelod-wladwriaeth, i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth ac i ymdrin ag unrhyw achosion posib o dordyletswydd.



Cynrychiolwyr Cyngor Ffug yr Undeb Ewropeaidd 2011

# Codi proffil Cymru yn yr UE a hybu ymgysylltu â'r UE yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru'n bartner ffyddlon o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'n bwriad yw cymryd rhan egnïol ac amlwg. Trwy fanteisio i'r eithaf ar yr holl ddulliau o ysgogi sydd ar gael i ni, byddwn yn parhau i weithio i godi mwy o ymwybyddiaeth eto am Gymru o fewn yr UE. Gwnawn hyn drwy hyrwyddo'r gorau o blith yr hyn sydd gennym i'w gynnig – o safbwynt cymdeithasol, amgylcheddol, addysgol ac economaidd, ac o ran twristiaeth a diwylliant – a thrwy feithrin cysylltiadau â chenhedloedd a rhanbarthau eraill drwy bartneriaethau, rhwydweithiau ac ymglymiad â sefydliadau lleol.

Mae'r gwaith hwn i godi proffil yn gysylltiedig â chryfhau ein dylanwad i'n cynorthwyo i gyflawni yn unol â'n hamcanion polisi.

Byddwn yn cyfleu delwedd gadarnhaol o Gymru fel cenedl sy'n ymfalchïo yn ei diwylliant a'i llwyddiannau, ac fel partner deinamig, ymroddedig sy'n wynebu tua'r byd.

## Codi proffil Cymru drwy ragoriaeth a thrwy rannu dysgu

Byddwn yn hyrwyddo arfer gorau o Gymru ymysg llunwyr polisi o sefydliadau'r UE ac o ranbarthau a gwledydd trwy ddigwyddiadau a chymryd rhan ym mentrau'r UE. Ymhlith y meysydd lle cydnabyddir bod Cymru'n arweinydd y mae ein dull o integreiddio datblygu cynaliadwy wrth lunio polisïau, addysg fenter, defnyddio offerynnau peiriannu ariannol i hyrwyddo mynediad cwmnïau bach a chanolig at gyllid, gwasanaeth cymorth Cyswllt Ffermio ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth, a hybu'r Gymraeg, sydd o ddiddordeb i nifer o gymunedau dwyieithog yn Ewrop.

Byddwn yn hybu rhannu arfer gorau o Gymru ac yn defnyddio'n rhagoriaeth a'n harbenigedd i godi'n proffil gyda'r UE.

## Hybu Cymru ym Mrwsel

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal Swyddfa UE Cymru ym Mrwsel i hybu a diogelu buddiannau Cymru drwy sefydliadau'r UE yn ogystal â chynyddu proffil Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Swyddfa'r UE yn helpu Gweinidogion â'u gwaith Ewropeaidd ac yn darparu gwybodaeth ac yn dehongli materion yr UE i bob rhan o bortffolio buddiannau Llywodraeth Cymru. Mae'r swyddfa hefyd yn blatfform ar gyfer rhwydweithio a chynnal digwyddiadau diwylliannol i feithrin cysylltiadau, lobïo penderfynwyr ac ehangu'n dylanwad.

Bydd ein gweithgareddau diwylliannol yn codi ymwybyddiaeth am Gymru a'n diwylliant unigryw ymysg cynulleidfa eang o'r UE, a threfnir gweithgareddau yn aml mewn partneriaeth â chenhedloedd, rhanbarthau neu sefydliadau eraill er mwyn meithrin perthnasoedd buddiol all arwain at gydweithio, cyfnewid, cyd-brosiectau a chyfnodau hyfforddi pellach. Bydd digwyddiadau o'r fath wedi'u hangori'n aml wrth fenter ddiwylliannol fawr neu themâu fel y World Music Expo (WOMEX) a gynhelir yng Nghaerdydd yn 2013, canmlwyddiant geni Dylan Thomas yn 2014 neu ddiwrnodiau coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf ac yn cyflenwi'n gwaith rhyngwladol ehangach i godi proffil.

Byddwn yn parhau i godi proffil Cymru ym Mrwsel drwy ddigwyddiadau polisi a diwylliannol a fydd wedi'u hangori wrth ein *Rhaglen Lywodraethu* a'n prif fentrau diwylliannol.

## Hybu Cymru drwy dwristiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth

Yn 2011, denodd Cymru 600,000 o ymwelwyr o Aelod Wladwriaethau eraill yr UE, a wnaeth wario cyfanswm o £169 miliwn. Mae Croeso Cymru yn targedu ei waith marchnata yn yr UE drwy asiantaethau mewn Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys Ffrainc, Yr Iseldiroedd, Yr Almaen, Yr Eidal, Gwlad Belg a Sbaen. Bydd yn cynnal ymgyrchoedd yn y gwledydd hyn ac yng ngwledydd eraill yr UE, ac mae'n hybu gwefannau a llyfrynnau yn ieithoedd yr UE i roi gwybodaeth ychwanegol i ddarpar ymwelwyr.

Mae gwasanaethau awyr i Gymru, ac oddi yma, yn hanfodol er mwyn hybu busnes, masnach a thwristiaeth. Yn y cyd-destun hwn, mae cysylltiadau awyr i ddinasoedd a marchnadoedd allweddol yr UE yn arbennig o bwysig ac mae Cymru wedi llwyddo i ddenu llwybrau newydd i Zurich, Barcelona ac, o fis Mehefin 2012, i Alicante a Palma. Er mwyn adeiladu ar hyn, mae Llywodraeth Cymru'n archwilio mesurau posib er mwyn denu llwybrau awyr newydd oddi mewn i fframwaith rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE.

Rydym yn ymrwymedig i hybu Cymru fel cyrchfan ymwelwyr ac i weithio tuag at ddenu amrywiaeth ehangach a mwy mynych o wasanaethau awyr i Gymru ac oddi yma.


2
3
4

## Cysylltiadau addysgol a diwylliannol

Ers tro, mae Llywodraeth Cymru a sector addysg Cymru – ysgolion, colegau addysg bellach a phrifysgolion – wedi bod yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau ag adrannau cyfatebol ar draws yr UE er mwyn rhannu arfer da, ac er mwyn helpu disgyblion a myfyrwyr mewn addysg bellach ac addysg uwch i weithio neu astudio dramor. Er enghraifft, rydym wedi llofnodi cytundebau â Chatalonia a Thwsgani sydd wedi galluogi myfyrwyr addysg bellach o bob rhan o Gymru i fynd ar leoliad gwaith i'r rhanbarthau hyn, gan gynyddu drwy hynny eu cyflogadwyedd, eu sgiliau iaith, eu hunan-fri a'u cymhelliant.

Mae cymorth yr UE i addysg ac ieuenctid yn cefnogi teithio o'r fath ac yn cyfrannu at ffyniant ac ansawdd bywyd. Mae hefyd yn bwysig gan ei fod yn cynnig cyfle pwysig i ariannu prosiectau'r Gymraeg a chredwn felly y dylai'r rhaglenni newydd, ar gyfer 2014-2020, roi sylw neilltuol i ieithoedd llai eu defnydd.

Mae gan Lywodraeth Cymru a'n sefydliadau partner hwythau rwydwaith diwylliannol cryf ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cysylltiadau hyn yn galluogi cydweithio ar bolisïau a phrosiectau ar y cyd ar destunau fel effaith y sector diwylliannol neu symudedd sgiliau ar yr economi, y gellir eu hariannu drwy raglenni'r UE ar gyfer Diwylliant a'r Cyfryngau.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a gynigir gan raglenni'r UE ym maes dysgu gydol oes, ieuenctid, diwylliant a'r diwydiannau creadigol gyda golwg ar gynyddu lefelau cyfranogiad Cymru.

## Hybu ymgysylltu â'r UE yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru'n hybu rhaglen gyfathrebu sydd wedi'i hanelu at godi ymwybyddiaeth am faterion yr UE ymysg partneriaid a'r cyhoedd trwy ddigwyddiadau fel Fforwm Cymru ar Ewrop.  Rydym hefyd am hybu cyfleoedd i bartneriaid a'r gymdeithas sifil gyfrannu at ffurfio polisi'r UE

Rydym yn trefnu digwyddiad Cyngor Ffug yr Undeb Ewropeaidd ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, a anelir at ysgolion uwchradd a cholegau ym mhob rhan o Gymru. Arweinir y digwyddiad fel arfer gan y Prif Weinidog neu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ac mae myfyrwyr  o un o'n rhanbarthau partner yn yr UE yn cyfranogi ynddo.

Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth am faterion yr UE yng Nghymru.

1. Yr olygfa tua'r Fenni
2. Bae Caerdydd
3. Arfordir Sir Benfro
4. Trefaldwyn

# Dylanwadu ar waith llunio polisïau'r UE

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU, sefydliadau'r UE a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill inni allu cymryd rhan lawn a gweithgar yn natblygiad polisïau'r UE.

## Cymru a Llywodraeth y DU

O dan delerau'r cytundeb datganoli, mae'r cymhwysedd i gynnal trafodaethau â Chyngor yr UE yn parhau i fod ym meddiant Llywodraeth y DU, am mai hi sy'n cynrychioli'r Aelod-wladwriaeth. Mae cyfranogiad ffurfiol Llywodraeth Cymru ym mhroses llunio polisïau Ewropeaidd y DU yn digwydd mewn sawl ffordd. Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop sy'n dod ag Adrannau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghyd i ystyried ymagwedd strategol fras at bolisi'r UE. Bydd cyfarfodydd eraill ar lefel Weinidogol ac ar lefel swyddogol yn cryfhau'r cydweithio rhwng y Gweinyddiaethau dan sylw. Ym Mrwsel, mae Swyddfa Cymru yn cydweithio'n glos â Chynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr UE a chydweithwyr o Weinyddiaethau Datganoledig eraill y DU.

Byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU ac â'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau'r UE.

## Cyngor yr Undeb Ewropeaidd

Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad at holl sefydliadau'r UE. Mae hyn yn cynnwys Cyngor yr Undeb Ewropeaidd lle caiff llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau eu cynrychioli gan eu Gweinidogion. Cynhelir y Cyngor ar ddeuddeg ffurf, yn seiliedig ar feysydd pwnc, lle bydd Gweinidogion yr Aelod-wladwriaethau'n cymryd rhan. Bydd Gweinidogion Cymru'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor fel rhan o ddirprwyaeth y DU, gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol atebol y DU. Er 2008 mae Gweinidogion wedi cael dewis siarad Cymraeg yn y Cyngor, lle cynigir gwasanaeth cyfieithu llawn i bob un o 23 o ieithoedd swyddogol yr UE.

Mae Llywyddiaeth Cyngor yr UE yn newid ar gylchdro bob chwe mis, gyda phob Aelod-wladwriaeth yn nodi cyfres o flaenoriaethau ar gyfer ei chyfnod yn y swydd. Cyflwynodd Cytuniad Lisbon hefyd y cysyniad o Lywyddiaeth ar ffurf triawd, lle bydd tair Llywyddiaeth olynol yn cytuno ar raglen weithredu. Yn rhan o'n proses adrodd flynyddol, rydym wedi ymrwymo i ddadansoddi ac i adrodd ar y rhaglenni hyn.

Mae Gweinidogion yn cyfranogi yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o ddirprwyaeth y DU, ar faterion y mae gan Gymru ddiddordeb ynddynt gyda'r nod o sbarduno canlyniadau positif.

## Senedd Ewrop

Caiff Aelodau Senedd Ewrop eu hethol yn uniongyrchol bob pum mlynedd gan ddinasyddion yr Aelod-wladwriaethau. Bydd Cymru'n ethol pedwar ASE drwy system rhestr gyfrannol Cymru gyfan.

Senedd Ewrop, ar y cyd â'r Cyngor, sy'n penderfynu ynghylch mwyafrif helaeth o ddeddfwriaeth yr UE. Mae gan y Senedd ddylanwad a chyfrifoldebau bron yn yr holl feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Nod Llywodraeth Cymru yw gweithio gyda 4 ASE Cymru trwy gyfarfodydd briffio a chysylltiadau rheolaidd a byddwn yn cynnal cysylltiadau ag ASEau eraill sy'n dylanwadu ar feysydd sydd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymysg ein swyddogion ein hunain am bwysigrwydd Senedd Ewrop a sut mae'n gweithio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda gydag ASEau Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny i hybu buddiannau Cymru. Bydd y Llywodraeth hefyd yn parhau i gysylltu ag ASEau dylanwadol eraill mewn meysydd y mae gennym y mwyaf o ddiddordeb ynddynt.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Prif swyddogaeth y Comisiwn Ewropeaidd yw cychwyn deddfwriaeth yr UE. Ef fel arfer yn unig sydd â chyfrifoldeb am hyn. Bydd swyddfa UE Llywodraeth Cymru'n chwarae rhan bwysig o ran cael drafftiau datblygu cyn gynted ag sy'n bosibl, er mwyn gallu dylanwadu ar eu datblygiad. Cam pwysig yn y broses yw monitro proses cynllunio strategol a rhaglen waith flynyddol y Comisiwn ei hun. Byddwn yn cynnwys dadansoddiad o gynigion sydd ar ddod gan y Comisiwn ac o flaenoriaethau allweddol yn ein Rhaglen Waith ein hunain.

Bydd y Comisiwn (ynghyd â Llys Cyfiawnder Ewrop) hefyd yn monitro cydymffurfiaeth â chyfraith yr UE. Fel y nodwyd eisoes, gall diffyg cydymffurfio yn y meysydd hyn arwain at ganlyniadau ariannol difrifol i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru felly'n ymrwymedig i gadw cyswllt agos a chynnal deialog â'r Comisiwn, yn uniongyrchol drwy ein Swyddfa UE a thrwy Swyddfa'r Comisiwn ei hun yng Nghaerdydd.

## Pwyllgor y Rhanbarthau

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig o gyrff rhanbarthol a lleol ledled yr UE. Mae'n rhaid i'r Comisiwn a'r Cyngor ymgynghori â'r Pwyllgor ar bob cynnig a allai fod o bwys i lywodraeth leol a rhanbarthol. Mae gan Gymru ddwy sedd lawn a dwy sedd am yn ail, ac ynddynt gynrychiolwyr o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth leol. Nid oes rhaid i'r aelodau ddilyn cyfarwyddiadau, ond mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i gefnogi'u gwaith fel bo'r angen.

Ers 2008 mae Aelodau wedi cael dewis siarad Cymraeg yng nghyfarfodydd llawn y Pwyllgor o dan gytundeb a negodwyd gan Lywodraeth Cymru.



## Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop

Corff ymgynghorol yw Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop sy'n defnyddio barn ac arbenigedd o du cymdeithas sifil. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru dair sedd o fewn dirprwyaeth y DU, wedi'u henwebu gan y Prif Weinidog, sy'n adlewyrchu ystod o arbenigedd o bob rhan o gymdeithas sifil Cymru. Mae'n rhaid ymgynghori â'r Pwyllgor ar gynigion y Comisiwn cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron y Cyngor. Fel Pwyllgor y Rhanbarthau, caiff yr aelodau ddefnyddio'r Gymraeg.

## Cysylltiadau â Rhanbarthau ac Aelod-wladwriaethau'r UE

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gydweithredol â rhanbarthau a gwledydd yn Ewrop, megis Baden-Württemberg; Catalonia; Gwlad y Basg; Llydaw, Silesia a Latfia. Gyda Llydaw er enghraifft, rydym yn edrych ar ffynonellau ynni newydd posibl.

Rydym yn aelod o Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol ac rydym yn cydweithio â rhanbarthau eraill ar bolisïau o ddiddordeb cytûn. Rydym yn weithgar mewn rhwydweithiau gan gynnwys Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes, y Rhwydwaith Di-GMO, y Rhwydwaith Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol, Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy, Eurada (ar ddatblygu rhanbarthol) a Rhanbarthau â Phwerau Deddfu.

Mae Cymru'n elwa o gyfranogi mewn Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd ar gyfer 2007-2013: Iwerddon-Cymru (trawsffiniol), Gogledd-orllewin Ewrop ac Ardal yr Iwerydd (trawswladol) ac Interreg IVC ac Urbact (rhyngranbarthol). Mae'r rhaglenni hyn yn mynd i'r afael â materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n torri ar draws ffiniau cenhedloedd ac yn rhoi cyfle i ranbarthau'r UE gydweithio, rhannu arfer gorau a throsglwyddo gwybodaeth er mwyn cynnig ffyrdd o ddatrys heriau cyffredin.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â Llywodraeth y DU ac ag Aelod-wladwriaethau eraill yr UE i ddatblygu a dylanwadu ar esblygiad rhaglenni cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd 2014-2020 a gaiff eu halinio â strategaeth Europe 2020. Bydd Cymru'n anelu at adeiladu ar y cynnydd a wneir, drwy ymgysylltu â rhanbarthau eraill yr UE i gael y gorau i'n buddiannau a chodi ein proffil rhyngwladol. Wrth wneud hynny, rhoddir ystyriaeth ofalus i'r dull mwyaf effeithiol o integreiddio rhyngwladoli â blaenoriaethau datblygu economaidd ar gyfer Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n allblyg ei hagwedd ac yn ymrwymo i gydweithio ag eraill ar brosiectau trawswladol a rhyngranbarthol; ac i gydweithredu ar gynigion polisi'r UE lle bo modd, oherwydd ceir mwy o ddylanwad wrth gyflwyno safbwyntiau ar y cyd.

## Arbenigedd yr UE

Mae datblygu ac adfywio arbenigedd yr UE yn hanfodol os ydym ni am wireddu'n dyheadau. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddatblygu'r arbenigedd perthnasol yn yr UE yng Nghymru drwy sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu creu i'n swyddogion weithio gyda sefydliadau Ewropeaidd, ac yn y sefydliadau hynny. Byddwn hefyd yn nodi cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol am hyfforddiant priodol i atgyfnerthu a datblygu ein sylfaen bresennol o wybodaeth gorfforaethol.

Byddwn yn parhau i gefnogi secondiadau dethol a byrdymor i sefydliadau'r UE fel ffordd o ddatblygu arbenigedd ac o godi proffil Cymru o fewn yr UE. Rydym hefyd yn anelu at symbylu cynnwys cynrychiolwyr Cymru, oddi mewn ac oddi allan i'r Llywodraeth, yng ngrwpiau arbenigol yr UE.

# Y Camau Nesaf: Rhaglen Waith ac Adroddiad Blynyddol

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw hybu a diogelu buddiannau Cymru, a sicrhau'r canlyniadau gorau bosib i'n dinasyddion. Yn y ddogfen hon, nodir ein dull strategol o sicrhau cysylltiadau cynhyrchiol â'r Undeb Ewropeaidd fel cyfraniad at gyflawni'r nod hwn. Mae'n dangos sut mae'r ymdrech hon yn cyfrannu'n sylweddol at nodau ein *Rhaglen Lywodraethu*. Mae hefyd yn dangos sut mae ein hymagwedd o ran polisi yn gyson ag ymagwedd yr Undeb Ewropeaidd yn gyfan.

Mae ein strategaeth yn rhoi ffocws arbennig ar ddatblygu cyfeiriad polisi tymor canolig a hir yr Undeb. Byddwn yn ceisio dylanwadu ar bolisi i ddiogelu buddiannau Cymru ac i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau ein hunain, fel y'u nodir yn y *Rhaglen Lywodraethu*. Byddwn yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o raglenni'r UE yng Nghymru, yn enwedig o ran gwella'n mynediad at ffrydiau ariannu cystadleuol a fydd yn dylanwadu ar dwf.

Bydd Llywodraeth Cymru'n llunio Rhaglen Waith flynyddol ar faterion sy'n gysylltiedig â'r UE. Bydd y rhaglen hon yn gysylltiedig â Rhaglen Waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd a blaenoriaethau Llywyddiaeth gylchdro'r Cyngor.  Byddwn yn nodi'r mentrau polisi a'r cynigion deddfwriaethol penodol y byddwn yn canolbwyntio arnynt am y flwyddyn nesaf. Yn dilyn pob Rhaglen Waith, ar ddiwedd pob blwyddyn, ceir Adroddiad Blynyddol ar ein gweithgareddau a'n cynnydd, i ganfod yr achlysuron a drodd y fantol ac i fapio cynnydd.

Drwy wneud hyn, ein nod fydd cryfhau ein partneriaeth â'r UE wrth i ni geisio dod â ffyniant cynaliadwy i Gymru.